

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487
(CYLCHFAN PARC MENAI I GYLCHFAN YR
ANTELOPE, BANGOR, GWYNEDD)
(GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU
TRAFFIG DROS DRO) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, wrth Gylchfan Parc Menai a Chylchfan yr Antelope, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

i) gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys) rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o ganol y gerbyttffordd gylchredol wrth Gylchfan Parc Menai hyd at ei chyffordd â'r A5 wrth Gylchfan yr Antelope; a

ii) gosod terfyn cyflymder o 40 mya, 30 mya neu 10 mya ar y darn o gefnffordd yr A487 a bennir uchod. Bydd y terfynau cyflymder o 40 mya neu 30 mya yn weithredol yn ysbeidiol yn ystod cyfnodau'r gwaith. Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn weithredol ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Caniateir stopio'r traffig am gyfnodau byr olynol ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod para'r gorchymyn gan ddefnyddio naill ai arwyddion neu signalau traffig priodol neu gyda chymorth Swyddog Heddlu neu Swyddog Traffig. Nid oes angen unrhyw lwybrau dargyfeiriol.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 26 Mehefin 2023 ac yn weithredol yn ysbeidiol am 18 mis ar y mwyaf, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A487 TRUNK ROAD (PARC MENAI
ROUNDAABOUT TO ANTELOPE
ROUNDAABOUT, BANGOR, GWYNEDD)
(TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND
RESTRICTIONS) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A487 trunk road at Parc Menai Roundabout and Antelope Roundabout, Gwynedd.

The effect of the Order will be to temporarily:

i) prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services) from proceeding on the length of the A487 trunk road that extends from the centre of the circulatory carriageway at Parc Menai Roundabout to its junction with the A5 at Antelope Roundabout; and

ii) impose a 40 mph, 30mph or 10 mph speed limit on the length of the A487 trunk road specified above. The 40 mph or 30 mph speed limits will operate intermittently during the work periods. The 10 mph speed limit will only operate during convoy working and no overtaking will be permitted during these times.

Traffic may be stopped for successive short period intervals at any time during the order duration using either appropriate traffic signs or signals or with the assistance of a Police Officer or Traffic Officer. No diversionary routes are necessary.

It is expected that the temporary prohibitions and restrictions, which will be signed accordingly, will come into force at 00:01 hours on 26 June 2023 and operate intermittently for a maximum duration of 18 months, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government